

**Tarten Mas o Rawys**

**Cynhwysion:**
Toes crwst brau
100g Caws Swydd Gaer
150ml hufen sengl
1 wy
Pinsiad o halen a phupur
Melynwy i wydro

- ◊ Irwch ddysgl bastai gyda menyn.
- ◊ Rholiwch 2/3 o'r toes i wneud câs y bastai.
- ◊ Torrwch y caws yn dalpiau a'i bwnio mewn morter a phestl.
- ◊ Mewn powlen fawr rhowch y caws wedi'i bwnio, wy wedi'i chwisgo, hufen, halen a phupur a'i gymysgu gyda'i gilydd.
- ◊ Rhowch y gymysgedd yng nghâs toes y bastai.
- ◊ Rholiwch weddill y toes a'i roi ar y caead - ei selio a'i wydro gyda melynwy.
- ◊ Pobwch ar 220 ℃ am 40 munud neu nes ei fod yn frown euraidd